# Adroddiad i Gyfarfod Llawn Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **6 Hydref 2022** |
| **Teitl:** | **Diwygio Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Menna Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Gwenllian Mair Williams, Ymgynghorydd Iaith** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

I'r Cyngor Llawn gytuno i fabwysiadau'r Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig.

**RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Mae newidiadau mawr wedi bod yn y modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ers i'r Polisi cyfredol gael ei lunio yn 2016. Mae'n allweddol felly sicrhau bod Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor yn cael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu dulliau gweithredu hynny ac uchelgais cyfredol y Cyngor o ran hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaethau.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Mae ymrwymiad statudol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn cael ei ddiffinio dan *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011* a'r Safonau Iaith a osodwyd ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

1.2. Cafodd y Polisi cyfredol ei ysgrifennu a'i gymeradwyo yn 2016 mewn ymateb i osod Safonau'r Gymraeg. Roedd yn fodd o ateb y gofynion o fewn y Safonau i "*ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso'r Gymraeg*" (Safon 98) ac i gael dogfen sydd yn esbonio sut y mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio gyda'r gwahanol ddosbarthiadau o Safonau (Safon 171 ac eraill).

1.3. Ar yr un pryd, roedd awydd gan y Cyngor i sicrhau nad oedd gweithredu'r Safonau yn gwanhau ei ymrwymiadau hanesyddol, drwy'r Polisïau a Chynllun Iaith blaenorol, ac yn benodol felly yr ymrwymiad i gynnal gweinyddiaeth fewnol y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg, i fod yn hybu'r Gymraeg, ac i fod yn gwneud y cynnig rhagweithiol Cymraeg drwy ei holl wasanaethau.

1.4. Lluniwyd y Polisi felly gyda'r bwriad o esbonio sut y bydd gwasanaethau a staff y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r Safonau wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ac hefyd i adlewyrchu egwyddorion ac uchelgais y Cyngor ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, a'r bwriad i weithredu o blaid y Gymraeg.

## 2. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

2.1 Yn ystod 2020, dechreuwyd edrych ar adolygiadau posib i'r polisi iaith. Cymerwyd y cam hwn am fod newidiadau mawr wedi bod yn y modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ers i'r Polisi cyfredol gael ei lunio yn 2016.

2.2 Roedd teimlad nad oedd rhai rhannau o'r Polisi yn rhoi arweiniad digon clir a chadarn i staff, ac nad oedd yn cwmpasu'r holl sefyllfaoedd y mae gwasanaethau yn delio gyda nhw o ddydd i ddydd. Nid oedd cymalau penodol, er enghraifft, yn delio gyda'r modd y caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio yn systemau TG y Cyngor. Roedd hefyd angen adlewyrchu'r newidiadau oedd wedi eu gwneud i'r drefn recriwtio yn y polisi.

2.3 Manteisiwyd ar y cyfle felly i wneud adolygiad trylwyr o'r Polisi. Mae'r Polisi diwygiedig i'w weld yn llawn yn **Atodiad A**, ac mae'r newidiadau sydd yn cael eu cynnig yma yn amrywio o:

- fan newidiadau gweinyddol
- creu cymalau newydd
- rhoi arweiniad ar feysydd sydd ddim o reidrwydd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r Safonau
- gosod cymalau sydd yn nodi'r egwyddorion allweddol yn glir er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cymryd pob cyfle i hybu'r Gymraeg.

## 3 Cymalau neu adrannau newydd

3.1 Mae rhai cymalau wedi eu hychwanegu o'r newydd i'r polisi a rhai adrannau lle mae newidiadau mwy sylweddol wedi eu gwneud i gynnwys y polisi blaenorol. Nodwn isod felly y prif newidiadau er gwybodaeth i chi:

i. **Amcanion ac Egwyddorion cyffredinol –** Mae'r egwyddorion cyffredinol ar ddechrau'r polisi wedi cael eu haddasu a'u cryfhau, a chymalau newydd yn cynnwys un am arddel enw Cymraeg y Cyngor yn unig, ac un yn amlygu cyfrifoldeb y Cyngor i asesu effaith penderfyniadau. Mae diwyg y polisi wedi ei addasu er mwyn cynnwys Egwyddorion Cyffredinol ar ddechrau pob adran hefyd. Mae'r rhain yn rhoi esboniad byr a chryno o beth yw'r amcan cyffredinol ar gyfer y maes gweithredu hwnnw, a bydd modd defnyddio'r egwyddorion hyn fel canllaw byr a sydyn i helpu staff ddeall beth sydd angen ei wneud i weithredu'r polisi a chydymffurfio gyda'r Safonau yn eu gwaith. Mae'r amcanion ac egwyddorion hyn yn cyfleu ymrwymiad y Cyngor i'r Safonau ac hefyd i hybu y Gymraeg ymhellach na chynnig gwasanaethau dwyieithog.

ii. **Amcanion Cyffredinol - Enw'r Cyngor:** Mae ymrwymiad wedi ei gynnwys yn yr amcanion cyffredinol, a cymalau wedi eu hychwanegu i'r polisi, sydd yn adlewyrchu'r awydd i arddel enw Cymraeg y Cyngor (Cyngor Gwynedd) wrth gyfeirio at ei hun yn ysgrifenedig ac fel rhan o'r ddelwedd gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys newid o Cyngor Gwynedd Council i Cyngor Gwynedd ar logos electronig, pen-lythyrau a chyfeiriadau at y Cyngor mewn dogfennau cyhoeddus, rhaglenni cyfarfodydd a gwefannau ac apiau. Bydd hefyd yn cynnwys defnydd o enw'r Cyngor mewn logos a ddefnyddir yn gyhoeddus, megis ar arwyddion safle neu gerbydau y Cyngor, a bydd y newidiadau hyn yn cael eu gwneud wrth adnewyddu er mwyn osgoi costau ychwanegol.

Mae'r newid hwn wedi ei gynnwys i adlewyrchu gwaith, a'r arweiniad sydd wedi ei gael, gan brosiect blaenoriaeth y Prosiect Enwau Lleoedd Cynhenid.

Yn statudol dan Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae gan y Cyngor ffurf enw yn y Gymraeg a'r Saesneg sef enw'r Sir, Gwynedd ac unai Cyngor Gwynedd neu Gwynedd Council. Nid yw'r hyn a argymhellir yn y Polisi yn newid y sefyllfa yma. Yr hyn sydd yn y Polisi yw bwriad i ddefnyddio y ffurf Gymraeg yn unig wrth gyfathrebu a chyfeirio at y Cyngor. Rydym wedi derbyn arweiniad cyfreithiol y gellir gweithredu yn y modd yma gan ddal sylw penodol at ofynion Mesur Iaith (Cymru) 2011 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r agweddau yma yn cael sylw penodol yn yr adroddiad a'r Asesiad Ardrawiad sydd yn ynghlwm. Dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021, Adran 25 mae gan y Cyngor bŵer cymhwysedd cyffredinol bellach sydd yn rhoi hyblygrwydd gweithredol ehangach i'r Cyngor i wneud penderfyniadau. Mae'r gallu i ddefnyddio'r pŵer yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiad statudol sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag nid yw'r hyn a argymhellir yn disgyn o fewn y categori yma. Mae'r hyn a argymhellir yn yr adroddiad ynglŷn ag arddel y ffurf Gymraeg yn unig yn safbwynt Polisi y gall y Cyngor ei gymryd o fewn y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Yn amlwg wrth weithredu y Polisi bydd angen cadw trosolwg o amgylchiadau ble fyddai gofynion penodol yn golygu fod angen defnyddio ffurf amgen ond mae'r Polisi yn darparu hyblygrwydd digonol ar gyfer cyfarch hyn.

iii. **Adran 5 - Gwasanaethau digidol – gwefan, apiau a hunanwasanaeth –** mae'r adran hon wedi ei newid yn sylweddol er mwyn rhoi gwell arweiniad i staff am ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwahanol ffyrdd y defnyddir technoleg yng ngwaith y Cyngor. Roedd yr arweiniad oedd yn cael ei roi am ddefnyddio'r Gymraeg mewn technoleg yn y Safonau, ac yn sgil hynny y Polisi blaenorol, yn brin iawn, a chan fod y Cyngor wedi bod yn datblygu mwy o wasanaethau ar-lein ac yn dibynnu mwy ar systemau TG, roedd angen addasu'r polisi i adlewyrchu hynny.

iv. **Adran 6 – Arwyddion –** Mae nifer o gymalau newydd wedi eu hychwanegu i'r polisi i adlewyrchu amcanion prosiect blaenoriaeth y Cyngor Prosiect Enwau Llefydd Cynhenid Cymreig ac ymrwymiad y Cyngor i warchod enwau lleoedd Cymraeg. Yn hanesyddol, roedd gan y Cyngor gymal o fewn ei gynllun iaith oedd yn ymrwymo i ddefnyddio enwau Cymraeg lleoedd, ond roedd hwnnw wedi diflannu o'r Polisi Iaith, ac roedd awydd i weld cymal tebyg yn cael ei ailosod yn y Polisi diwygiedig. Mae'r cymalau yma hefyd yn adlewyrchu'r arweiniad sydd wedi ei roi i'r Prosiect Enwau Llefydd yng nghyd-destun defnyddio enw Cymraeg y Cyngor ac arddel enwau Cymraeg strydoedd a lleoedd yn y sir.

v. **Adran 14 - hysbysebu swyddi a'r broses recriwtio** – Ers cyhoeddi'r Polisi Iaith yn 2016, mae gwaith sylweddol wedi ei wneud yn sgil y prosiect Dynodiadau Iaith i ddatblygu trefniadau asesu sgiliau iaith ar draws y Cyngor, ac felly roedd angen newid yr adran hon er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi eu gweithredu o fewn y broses recriwtio yn sgil y prosiect.

Mae'r diwygiadau yma felly wedi eu llunio ar sail trafodaethau gyda swyddogion Dysgu a Datblygu'r Sefydliad, Adnoddau Dynol a'r gwasanaeth Cefnogol fel rhan o Fwrdd Prosiect y Dynodiadau Iaith, ac maent yn gyson gyda'r addasiadau sydd hefyd wedi eu gwneud i bolisi recriwtio'r Cyngor.

vi. **Adran 15 – Atebolrwydd –** Mae'r adran hon wedi ei hychwanegu er mwyn nodi yn glir pwy sydd yn atebol i'r polisi a beth yw cyfrifoldeb yr Aelodau Etholedig ac aelodau'r Pwyllgor Iaith.

## 4 Ymgysylltu ac ymgynghori

4.1 Rydym wedi ymgynghori a thrafod yn eang ar y newidiadau i'r Polisi hwn. Cynhaliwyd nifer o weithdai a sgyrsiau gyda swyddogion i drafod rhannau penodol o'r polisi a newidiadau oedd yn cael eu hystyried, megis yr adran gweinyddiaeth fewnol, er mwyn sicrhau bod unrhyw addasiadau yn ymarferol a ddim yn rhoi swyddogion mewn sefyllfa anodd o ran cydymffurfio. Cafwyd sgyrsiau penodol gyda swyddogion adnoddau dynol y Cyngor hefyd, er mwyn sicrhau bod cysondeb rhwng y cymalau recriwtio a phenodi fyddai yn y Polisi Iaith a'r polisi recriwtio mewnol, a gafodd ei adolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

4.2 Rydym wedi cyflwyno eitemau i'r Pwyllgor Iaith ar ddau achlysur. Unwaith yn Ionawr 2021, pan gynhaliwyd gweithdy anffurfiol gyda'r aelodau ar adolygu'r Polisi, er mwyn casglu barn am rai o'r egwyddorion oedd yn cael eu hystyried ac i gymeradwyo y cymalau recriwtio a phenodi, ac yna eto yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf 2022 er mwyn cyflwyno'r drafft o'r polisi.

4.3 Rydym hefyd wedi derbyn sylwadau yn sgil ymgynghori gydag Adrannau'r Cyngor a grŵp Cydraddoldeb y Cyngor, ac wedi ystyried newidiadau yn sgil cwynion ac ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg. Mae crynodeb o'r ymgynghori sydd wedi ei wneud, y sylwadau neu awgrymiadau sydd wedi eu cynnig yn y gwahanol fforymau, ac unrhyw newidiadau yr ydym wedi eu hymgorffori yn y polisi terfynol o ganlyniad i'r sylwadau hynny, i'w weld fel atodiad i'r adroddiad hwn (**Atodiad B**). Mae'r risgiau a gafodd eu hadnabod drwy'r gwaith ymgysylltu yma hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad effaith, ac unrhyw oblygiadau cydraddoldeb wedi eu hystyried yn ofalus.

## 5. Asesiadau Effaith

### 5.1 Cyfrifoldebau Statudol

#### 5.1.1 Deddf Cydraddoldeb 2010

Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Mae'r materion hyn wedi cael sylw wrth lunio'r asesiad effaith.

#### 5.1.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru ) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

#### 5.1.3 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae'r Safonau Iaith a osodir dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i gael polisi sydd yn esbonio sut bydd y Cyngor yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol a dyletswydd i ystyried effaith ei benderfyniadau ar gyfleoed i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r Polisi a'r ddogfen asesu effaith sydd wedi ei atodi gyda'r adroddiad hwn yn ateb y gofynio hynny a osodir yn y Safonau.

**5.2 Crynodeb o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol**

5.2.1 Gan fod y Polisi wedi ei ysgrifennu i ateb gofyn statudol i gydymffurfio gyda'r Safonau, a'i fod wedi ei fwriadu i sicrhau bod y Cyngor yn gwarchod hawliau trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i sicrhau bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael i bawb, roedd yr effaith a nodwyd yn gadarnhaol ar y cyfan. Gweler yr Asesiad Effaith diweddaraf yn llawn yn **Atodiad C**.

5.2.2 Codwyd rhai materion yn ystod yr ymgynghori yn ymwneud gyda hil, a'r ffaith bod argraff gan rai unigolion bod y Polisi Iaith yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o hil gwahanol ac o leiafrifoedd ethnig – hy.y. pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg/ sydd ddim efo cenedligrwydd Cymreig neu bobl sydd wedi symud i'r ardal ac heb fynd drwy system addysg y sir a chael y cyfle i ddysgu Cymraeg. . Mae hyn yn ymwneud yn bennaf gyda'r cymalau recriwtio a ragdybiaeth bod sgiliau "hanfodol" yn golygu sgiliau rhugl, lefel uwch. Serch hynny, teimlwyd bod yr effaith gyffredinol yn gadarnhaol yn sgil y ffaith bod y polisi yn ateb y dyletswydd i warchod hawl unigolion i wasanaethau Cymraeg a bod y cymalau recriwtio yn fodd o sicrhau bod y sgiliau priodol ar gael i gyflwyno gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddi-dor.

5.2.3 Codwyd materion eraill yn ymwneud efo hygyrchedd gwybodaeth, effeithiau posib cynhyrchu dogfennau dwyieithog ar rai carfanu o bobl gydag anableddau, a'r peryg bod y dull gweithredu presennol yn mynd i gau rhai aelodau o'r gymdeithas allan o ddefnyddio gwasanaethau yn effeithiol oherwydd diffyg mynediad i dechnoleg (effaith sosio-economaidd posib). Gan fod y materion hyn yn ymwneud fwy efo'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyfathrebu yn gyffredinol yn hytrach na mater yn ymwneud efo'r Polisi Iaith yn uniongyrchol, ni ystyriwyd bod effaith fyddai yn arwain at angen i newid y polisi, ond bydd angen ystyried sut y byddwn yn ymateb i'r sylwadau.

5.2.4 Casglwyd mai effaith bositif y byddai mabwysiadu'r addasiadau i'r Polisi yn ei gael gan fod y newidiadau hynny yn cynrychioli ymdrech i gryfhau ymrwymiadau y Cyngor i weithredu Safonau'r Gymraeg ac hefyd dymuniad y Cyngor i fod yn hybu'r iaith ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r asesiad yn nodi bod gan y Cyngor strategaeth iaith sydd yn amlinellu ei amcanion i hybu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir, a bod y Polisi diwygiedig yn cyfrannu at amcanion maes Blaenoriaeth 3- Iaith Gwaith a Gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i'r nod llesiant o weithredu mewn ffordd sydd yn sicrhau bod trigolion yn gallu byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg" drwy Gynllun y Cyngor.

**6. Oblygiadau gweithredu a chostau**

6.1 Gan fod nifer o newidiadau wedi eu gwneud i'r polisi, bydd yn allweddol bod yr Ymgynghorwyr Iaith yn codi ymwybyddiaeth staff am y newidiadau hynny, ac yn rhoi camau yn eu lle er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gofynion. Bydd rhaglen gyfathrebu yn cael ei datblygu er mwyn rhannu negeseuon yn rheolaidd ac amserol gyda staff.

6.2 Mae rhai meysydd lle rydym yn ymwybodol, o ganlyniad i gwynion ac ati, bod ymwybyddiaeth am union ofyn y Safonau yn isel, a bydd angen rhoi sylw arbennig i'r meysydd hynny.

6.3 Mae rhai oblygiadau gweithredu hefyd ar gyfer yr adrannau hynny o'r polisi sydd wedi ei nodi yn adran 3 uchod fel y rhai lle mae'r newidiadau mwyaf wedi eu gwneud i'r Polisi. Mae'r rhain yn cynnwys:

6.4 **Adran 5 - Gwasanaethau digidol – gwefan, apiau a hunanwasanaeth:** Mae darn o waith penodol angen ei wneud i adolygu systemau TG y cyngor, er mwyn sicrhau bod pob system gennym yn ateb gofyn y Safonau a'r Polisi, ac yn gweithredu mewn modd sydd yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg ac yn defnyddio enwau a chyfeiriadau Cymraeg. Bydd hon yn rhaglen hir-dymor, gyda newidiadau yn cael eu gwneud i systemau wrth iddynt gael eu hadnewyddu os na fydd modd gwneud newidiadau yn syth ac yn rhwydd (di-gost). Mae hyn yn osgoi gorfod mynd i wariant ychwanegol wrth weithredu y polisi wedi iddo gael ei fabwysiadu.

6.5 **Adran 6 – Arwyddion:** Mae'r ymrwymiad sydd wedi ei nodi yn y polisi i ddefnyddio enwau lleoedd a strydoedd Cymraeg lle bynnag y bo'n bosib yn golygu y bydd angen cymryd rhai camau gweithredu er mwyn gweld newid cyn gynted â phosib. Bydd staff yn cael cyfarwyddyd i ddefnyddio enwau Cymraeg lleoedd, gan gynnwys strydoedd a phentrefi, mewn unrhyw ohebiaeth, cyhoeddiadau ysgrifenedig, ac arwyddion.

6.6 **Amcanion Cyffredinol - Enw'r Cyngor:** Bydd y newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i arddel enw Cymraeg y Cyngor yn cael eu gwneud fel rhan o raglen waith y Prosiect Enwau Lleoedd, ac mewn ffordd sydd yn golygu'r lleiafswm â phosib o gostau i'r Cyngor. Bydd cyfarwyddyd yn cael ei rannu gyda staff fel rhan o raglen gyfathrebu y Polisi, er mwyn cymryd camau cychwynnol di-gost, megis newid logos electronig, pen-lythyrau a chyfeiriadau at y Cyngor mewn dogfennau. Bydd newidiadau mwy, megis newid logos ar arwyddion neu gerbydau y Cyngor, yn cael eu gwneud wrth adnewyddu er mwyn osgoi costau ychwanegol.

6.7 Mae rhai amgylchiadau lle y bydd angen cyngor cyfreithiol cyn gweithredu'r newid, er enghraifft wrth ddefnyddio enw Cymraeg y Cyngor mewn dogfennau cyfreithiol, gorchmynion statudol, cytundebau a rhybuddion cosb, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg i'r Cyngor.

6.8 Bydd y Prosiect Enwau Lleoedd a'i fwrdd prosiect yn gyfrifol am fonitro'r newidiadau i'r ddau bwynt uchod ac i ystyried unrhyw faterion ymarferoldeb a chost – h.y. os bydd costau yn amlygu eu hunain wrth weithredu rhai elfennau, bydd angen cael cytundeb y Cabinet cyn symud mlaen.

6.9 **Adran 14 - hysbysebu swyddi a'r broses recriwtio**: Mae nifer o newidiadau yn y maes hwn eisoes wedi eu gweithredu fel rhan o'r Prosiect Dynodiadau Iaith, ond bydd cyfrifoldeb yn parhau i fonitro, ac i sicrhau bod cymalau'r polisïau Iaith a Recriwtio yn cael eu dilyn. Bydd hefyd angen rhoi camau ar waith i ddatblygu'r gefnogaeth sydd yn cael ei roi i weithwyr a

rheolwyr er mwyn datblygu sgiliau ieithyddol a sicrhau bod gwasanaethau yn gallu parhau i weithredu a gweinyddu yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.10 **Adran 15 – Atebolrwydd:** Bydd angen gwirio Cod Ymddygiad yr Aelodau Etholedig ac ystyried adolygu er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau a osodir yn y Polisi i barchu safbwynt y Cyngor at y Gymraeg yn cael ei nodi yn glir yno. Bydd hefyd angen codi ymwybyddiaeth yr aelodau o'r newidiadau hyn yn y Polisi.

6.11 Nid ydym yn ystyried bod unrhyw gost ychwanegol ynghlwm efo'r newidiadau a ddaw yn sgil gweithredu'r Polisi felly, gan y bydd newidiadau yn cael eu gweithredu fel rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor, ac yn achos arwyddion, yn raddol ac fel rhan o drefniadau adnewyddu arferol y Cyngor.

## 7. CAMAU NESAF

7.1 Os bydd y Cyngor Llawn yn cytuno ar y Polisi ar ei ffurf derfynnol, bydd yr Ymgynghorwyr Iaith yn mynd ati i weithredu ar y camau sydd wedi eui hadnabod yn gynharach yn yr adroddiad, ac ar raglen gyfathrebu fydd yn codi ymwybyddiaeth staff am y newidiadau ac uchelgais y Polisi.

7.2 Bydd y rhaglen gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth yn cael ei gweithredu mewn amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys:

- rhannu canllawiau ar fewnrwyd y Cyngor er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth a rhoi arweiniad pellach i staff ar feysydd penodol, gan gynnwys canllaw asesu effaith a thempledi a brawddegu safonol i'w defnyddio fel datganiadau mewn dogfennau a gohebiaeth.

- rhannu negeseuon allweddol a'r egwyddorion cyffredinol drwy rwydweithiau cyfathrebu mewnol

- codi ymwybyddiaeth staff am yr angen i weithredu yn unol a'r polisi mewn sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb.

7.3 Bydd hefyd angen ystyried dulliau ar gyfer codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o egwyddorion y polisi, yn ogystal a chynnal trafodaethau pellach gyda gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor er mwyn ymateb i rai o'r materion godwyd yn ystod yr ymgysylltu.

## 8. BARN SWYDDOGION STATUDOL:

### i. Y Swyddog Monitro:

*Rwyf wedi cael cyfle i gynghori yn benodol ar agweddau o'r mater yma ac mae'r arweiniad cyfreithiol penodol wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad. Rwy'n fodlon felly fod y diwygiadau a argymhellir I'r Polisi yn gyfreithiol briodol o safbwynt polisi a gweithrediad.*

### ii. Y Pennaeth Cyllid:

Tra gall fod ymhlygiadau ariannol ymylol o weithredu'r newidiadau i'r Polisi Iaith ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, rwyf yn argyhoeddedig gall adrannau'r Cyngor ddygymod gyda'r anghenion o fewn eu hadnoddau cyfredol.

Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd bydd newidiadau mwy, megis newid logos ar arwyddion neu gerbydau y Cyngor, yn cael eu gwneud wrth adnewyddu er mwyn osgoi costau ychwanegol, ac ymhellach nodir os bydd costau yn amlygu eu hunain wrth weithredu rhai elfennau, bydd angen cael cytundeb y Cabinet cyn symud mlaen.  Nid oes gennyf felly unrhyw wrthwynebiad i gynnwys y Polisi Iaith ddiwygiedig o safbwynt ariannol.

**Atodiadau sydd wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad hwn:**

**Atodiad A**: Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig 2022
**Atodiad B**: Crynodeb Ymgysylltu y Polisi
**Atodiad C**: Asesiad Effaith y Polisi Iaith – Awst 2022